

# canolradd

## gweithgareddau 1-4

a national wool museum
amgueddfa wlân cymru

a national museum wales
amgueddfa cymru

Noddir gan Llywodraeth Cynulliad Cymru
Sponsored by Welsh Assembly Government

# canolradd 1

## defaid a gwlân

**tiwtor**

**Nod: Dysgu mwy am ddefaid a gwlân.**

**Camau**

1. Rhannu'r dosbarth yn barau, un i gael Taflen 1 a'r llall i gael Taflen 2. Darllen y taflenni ar wahân.

2. Gwneud y tasgau mewn parau gan ofyn y cwestiynau i'w gilydd am yn ail.

3. Newid partneriaid a gwneud y tasgau ar Daflen 3 ar y cyd.



# canolradd 1

## defaid a gwlân

dysgwr
taflen 1

Darllenwch y darn ac atebwch gwestiynau eich partner. Wedyn, gofynnwch eich cwestiynau iddo/iddi.

Oeddech chi'n gwybod bod mwy o ddefaid na phobl yn byw yng Nghymru? Mae gyda ni 11.1 miliwn o ddefaid, ond faint o bobl sy'n byw yma?



Ond os ydyn ni'n meddwl bod llawer o ddefaid yng Nghymru, mae 134.9 miliwn ohonyn nhw yn Tsieina. Wrth gwrs, mae llawer iawn yn Awstralia a Seland Newydd hefyd. Faint tybed?

Yn ôl rhai, gwlân yw'r defnydd gorau ar gyfer carpedi. Dyw e ddim yn llithrig ac mae'n cadw ei liw yn dda.

Erbyn heddiw hefyd, mae gofalu am yr amgylchedd yn bwysig ac mae pobl yn hoffi gwlân am ei fod yn adnewyddadwy [*sustainable*] ac yn hawdd ei ailgylchu.

Un o'r clefydau mae ffermwyr yn ei ofni yw clwy'r traed a'r genau. Roedd y clwy hwn ar ei waethaf yn 2001-2002. Dechreuodd y broblem yn ne-ddwyrain Lloegr, ac o fewn un wythnos ar ddeg yn 2001 lladdwyd dros ddwy filiwn o anifeiliaid. Cafodd dros 70,000 o anifeiliaid eu difa yng Nghymru yn unig, y rhan fwyaf o lawer ohonyn nhw'n ddefaid.

Cwestiynau i'ch partner:

1. Faint o bobl sy'n byw yng Nghymru?
2. Faint o ddefaid sydd gan Awstralia a Seland Newydd?
3. Nodwch ddau reswm pam mae carpedi gwlân yn dda?
4. Rhowch ddau reswm pam mae gwlân yn dda i'r amgylchedd.
5. Rhwng pa ddau ddyddiad roedd clwy'r traed a genau ar ei waethaf?
6. Ddechreuodd y clwy mewn marchnad?
7. Faint o anifeiliaid yn union a laddwyd?
8. Faint oedd canran [%] y defaid a laddwyd yng Nghymru?

# canolradd 1

## defaid a gwlân

## dysgwr
## taflen 2

Darllenwch y darn ac atebwch gwestiynau eich partner. Wedyn, gofynnwch eich cwestiynau iddo fe/hi.

Oeddech chi'n gwybod bod mwy o ddefaid na phobl yn byw yng Nghymru? Mae 2.9 miliwn o bobl yn byw yma. Ond faint o ddefaid sy'n byw yma?




Wrth gwrs, mae llawer o ddefaid yn Awstralia (113.3 miliwn) a Seland Newydd (45.3 miliwn). Ond ydych chi'n gwybod faint sy yn Tsieina?

Yn ôl rhai, carpedi gwlân yw'r rhai gorau am eu bod yn hawdd eu cynnal a'u cadw'n lân.

Erbyn heddiw, hefyd, mae gofalu am yr amgylchedd yn bwysig ac mae pobl yn hoffi gwlân am ei fod yn hawdd ei ailgylchu ac yn pydru'n naturiol.

Un o'r clefydau mae ffermwyr yn ei ofni yw clwy'r traed a'r genau. Roedd y clwyf hwn ar ei waethaf rhwng 25 Hydref 2001 a 30 Medi 2002. Dechreuodd y broblem ar fferm yn Swydd Essex, ac o fewn rhai wythnosau yn 2001 lladdwyd 2,382,000 o anifeiliaid. Cafodd llawer eu difa yng Nghymru, 87% ohonyn nhw'n ddefaid.

Cwestiynau i'ch partner:

1. Faint o ddefaid sy yng Nghymru?
2. Faint o ddefaid sy yn Tsieina?
3. Nodwch ddau rheswm pam mae carpedi gwlân yn dda.
4. Rhowch ddau reswm pam mae gwlân yn dda i'r amgylchedd.
5. Ym mha flynyddoedd roedd clwy'r traed a'r genau ar ei waethaf?
6. Ym mha wlad dechreuodd y broblem?
7. O fewn sawl wythnos y lladdwyd llawer o anifeiliaid?
8. Faint o anifeiliaid gafodd eu difa yng Nghymru?

# canolradd 1

## defaid a gwlân

**dysgwr**
**taflen 3**

1. Llenwch y bylchau:

1. Mae __________________ o bobl yn byw yng Nghymru.

2. Mae __________________ o ddefaid yng Nghymru.

3. Mae __________________ o ddefaid yn Tseina.

4. Mae __________________ o ddefaid yn Awstralia.

5. Carpedi __________________ yw'r rhai gorau.

6. Mae carpedi gwlân yn __________________ eu cadw'n lân.

7. Mae carpedi gwlân yn cadw eu __________________.


8. Mae gofalu am yr __________________ yn bwysig i bobl.

9. Mae gwlân yn hawdd ei __________________.

10. Mae ffermwyr yn ofni clwy'r __________________.

11. Dechreuodd y broblem ar __________________ yn Swydd __________________.

12. Roedd rhaid difa __________________ o anifeiliaid yng Nghymru.




© WALES NEWS SERVICE

# canolradd 1

## defaid a gwlân

## dysgwr
## taflen 3

2. Pa eiriau / ymadroddion sy'n perthyn i'w gilydd?

| | |
|---|---|
| llithrig | lladd |
| amgylchedd | cadw |
| ailgylchu | slic |
| clefyd | sir |
| difa | y byd o'n cwmpas |
| cynnal | y mwyafrif |
| pydru | clwy |
| swydd | defnyddio eto |
| y rhan fwyaf | mynd yn ddrwg |

3. Chwiliwch yn y darnau darllen am y gair Cymraeg am:

*maintain*
*environment*
*recycling*
*to rot*
*disease*
*slippery*
*put down/destroy*
*renewable*

# canolradd 2

## rhai o dermau'r diwydiant gwlân

tiwtor

**Nod: Cyflwyno rhai o dermau'r felin a'r diwydiant gwlân a'u trafod.**


**Camau**

1. Darllen y termau ar y cyd a'u trafod gyda'r Tiwtor neu Swyddog Addysg.
2. Holi staff yr Amgueddfa ble y gellir gweld y gwrthrychau neu ddysgu mwy am y termau. Gellir nodi eu lleoliad ar y map gan ddefnyddio'r rhifau priodol.
3. Trafod y termau mewn grwpiau bach.
4. Trafod ystyr y penillion, diarhebion ac yn y blaen.




# canolradd 2

## rhai o dermau'r diwydiant gwlân | dysgwr




Amgueddfa Wlân Cymru: Adeiladau'r Felin, Llawr Isaf




Amgueddfa Wlân Cymru: Adeiladau'r Felin, Llawr Cyntaf

# canolradd 2

## rhai o dermau'r diwydiant gwlân — dysgwr

1. Darllenwch y rhestr yma o dermau gyda'ch tiwtor cyn mynd i ddysgu mwy amdanyn nhw o gwmpas yr Amgueddfa.

i) Y rhod ddŵr
Dyma oedd yn gyrru'r peiriannau yn yr hen amser. Roedd y dŵr oedd yn troi'r olwyn fawr yn llifo o'r pownd.

ii) Gwlana
Hwn oedd yr arfer o ddilyn llwybrau gwlân er mwyn casglu gwlân oddi ar lwyni a pherthi. Merched oedd yn gwneud y gwaith yma fel arfer, ac wedyn yn ei nyddu'n edau yn eu cartrefi.

iii) Gwlanen
Brethyn plaen, gweddol denau oedd, fel arfer, heb ei liwio. Roedd Cymru'n enwog am ei gwlanenni.

iv) Y ffrâm ddeintur
Dyma'r dull traddodiadol o sychu brethyn. Gwnaed y fframiau hyn, oedd tua 62-80 llathen o hyd, o bren pîn. Yr arfer oedd cysylltu'r brethyn â'r ffrâm â bachau, sef *tenterhooks* yn Saesneg.

v) Ystof / Ystofi
Dyma'r edeifion sy'n cael eu gosod yn eu hyd ar draws y gŵydd. Rhaid eu rhoi yn eu trefn gywir cyn dechrau gwehyddu.

vi) Yr anwe
Yr edeifion sy'n mynd dros ac o dan yr ystof i wehyddu'r brethyn.

vii) Pannu
Y broses o grebachu, golchi a thewychu brethyn ar ôl ei wehyddu. Yn wreiddiol, roedd pobl yn gwneud hyn drwy roi'r brethyn mewn dŵr, ychwanegu pridd y pannwr, a damsang arno.

viii) Pandy
Cafodd y broses ei mecaneiddio yn y 14eg ganrif, gyda morthwylion pren yn taro'r brethyn yn lle damsang arno.

ix) Y mul nyddu
Peiriant oedd yn gallu nyddu sawl edefyn ar yr un pryd. Dyfeisiwyd y peiriant [y *spinning jenny*] gan James Hargreaves yn 1770.

x) Codi'r geden
Y broses o godi'r ffeibrau ar wyneb y brethyn i'w gwneud yn fwy meddal a fflwffog. Roedd pobl yn arfer defnyddio llysiau'r cribwr i wneud hyn.

# canolradd 2

## rhai o dermau'r diwydiant gwlân

dysgwr

**Geirfa**

| | | | |
|---|---|---|---|
| pownd | *leat* | edau | *thread* |
| gwlanen | *flannel* | bachyn(bachau) | *hook(s)* |
| ystof | *warp* | anwe | *weft* |
| crebachu | *to shrink* | tewychu | *to thicken* |
| morthwyl(-ion) | *hammer(s)* | ffeibr(-au) | *fibre(s)* |

# canolradd 2

## rhai o dermau'r diwydiant gwlân

**dysgwr**

2. Ar ôl bod o gwmpas yr Amgueddfa a holi'r staff
   a) parwch y geiriau a'r lluniau
   b) ceisiwch ddweud rhywbeth am bob llun. Defnyddiwch y lluniau i'ch helpu.

pannu



ffrâm ddeintur




ystof



anwe



codi'r geden



y mul nyddu



y rhod ddŵr



# canolradd 2

## rhai o dermau'r diwydiant gwlân — dysgwr

3. Trafodwch ystyr yr ymadroddion/diarhebion hyn â'ch partner:

Yr oen yn dysgu i'r ddafad bori.
Edau rhy dynn a dyr. [Mae edau sy'n rhy dyn yn torri]
Cyfaill blaidd, bugail diog.
Dafad ddu'r teulu.
Hanner pan.

Bûm yn byw yn gynnil, gynnil
Aeth un ddafad imi'n ddwyfil
Bûm yn byw yn afrad, afrad
Aeth y ddwyfil yn un ddafad.

**Geirfa:**

| | |
|---|---|
| bûm | bues i |
| tynn | *taut* |
| blaidd | *a wolf* |
| cynnil | *thrifty* |
| afrad | *wasteful* |


# canolradd 3

## Teulu Lewis – sefydlwyr Melin Cambrian tiwtor

**Nod: Dysgu ychydig am hanes sefydlydd Melin Cambrian a'i deulu.**

**Camau**

1. Gweithio mewn parau, A a B.
2. Rhoi taflen i'r parau. Mae rhaid eu llenwi trwy ofyn cwestiynau am yn ail, gan ddechrau gydag A.
3. Derbyn adroddiad llawn gan bob pâr.
4. Trafod geiriau a phatrymau newydd.
5. Ymarfer ar gyfer 'Hanes Personol'.
6. Yn eich barn chi…



# canolradd 3

## Teulu Lewis – sefydlwyr Melin Cambrian

**dysgwr
taflen A**

Ganwyd David (1 ______________________) yn 1847. Sefydlodd e Felin Cambrian yn (2 ______________________) yn Nre-fach Felindre. Priododd e (3 ______________________) Jones yn 1872 ac fe gawson nhw (4 ______________________) o blant. Rhieni (5 ______________________) oedd biau Melin Babell. Roedd y teulu yn byw am gyfnod yn Llwynbrain sydd ond (6 ______________________) o'r Amgueddfa. Roedd David Lewis yn ŵr pwysig yn yr ardal ac roedd llysenw 'da fe, sef 'Duke'. Roedd gan David Lewis obsesiwn gyda (7 ______________________), a doedd e ddim yn hoff o blant. Tyfodd y busnes adeg y (8 ______________________) pan oedd y ffatri'n gwneud dillad i'r (9 ______________________). Ymddeolodd David Lewis yn 1921 a bu farw yn(10 ______________________).



**Cwestiynau:**

1. Beth oedd cyfenw David?
2. Pryd agorodd e'r ffatri?
3. Beth oedd enw bedydd Miss Jones?
4. Faint o blant gawson nhw?
5. Rhieni pwy oedd biau Melin Babell?
6. Pa mor bell yw Llwynbrain o'r Amgueddfa?
7. Beth oedd obsesiwn David Lewis?
8. Pryd tyfodd y busnes?
9. I bwy roedd y ffatri'n gwneud dillad?
10. Pryd bu farw David Lewis?

# canolradd 3

## Teulu Lewis – sefydlwyr Melin Cambrian

**dysgwr taflen A**

**Geirfa:**

| | |
|---|---|
| cyfenw | *surname* |
| enw bedydd | *christian name* |
| perchnogion | *owners* |
| llysenw | *nickname* |
| cynhyrchu | *to produce* |
| Y Rhyfel Mawr/Y Rhyfel Byd Cyntaf | *First World War* |
| ymddeol | *to retire* |

**Hanes personol:**

Ysgrifennwch hanes dau berson (rhywun enwog, os mynnwch) gan ddilyn y drefn a ganlyn, a siaradwch amdanyn nhw wedyn:

ganwyd
priododd
gweithiodd
ymddeolodd
bu farw
roedd yn ŵr/gwraig...

**Yn eich barn chi:**

Sut roedd y Lewisiaid yn wahanol i bobl gyffredin yr ardal? Ystyriwch y cyd-destunau canynol:

tŷ
ffatri
capel
y pentref
arian
ffrindau
y fynwent

# canolradd 3

## Teulu Lewis – sefydlwyr Melin Cambrian

**dysgwr taflen B**

Ganed David Lewis yn 18 (1 ______________________). Sefydlodd e Felin Cambrian yn 1902 yn (2 ______________________). Priododd e Ann (3 ______________________) yn 18 (4 ______________________) ac fe gawson nhw saith o blant. Rhieni Ann oedd perchnogion (5 ______________________). Roedd y teulu'n byw am gyfnod yn (6 ______________________) sydd ond can llath o'r Amgueddfa. Roedd David Lewis yn ŵr pwysig yn yr ardal ac roedd llysenw 'da fe, sef (7 ______________________). Roedd gan David Lewis obsesiwn gyda glendid a doedd e ddim yn hoff o (8 ______________________). Tyfodd y busnes adeg y Rhyfel Byd Cyntaf pan oedd y ffatri'n gwneud (9 ______________________) i'r milwyr. Ymddeolodd David Lewis yn (10 ______________________) a bu farw yn 1928.



**Cwestiynau:**

1. Pryd ganwyd David Lewis?
2. Ble agorodd e'r ffatri?
3. Beth oedd cyfenw Ann?
4. Pryd priododd David Lewis ag Ann?
5. Perchnogion beth oedd rhieni Ann?
6. Ble roedd y teulu'n byw?
7. Beth oedd llysenw David?
8. Beth doedd David ddim yn ei hoffi?
9. Beth oedd y felin yn ei gynhyrchu adeg y Rhyfel Mawr?
10. Pryd ymddeolodd David Lewis?

# canolradd 3

## Teulu Lewis – sefydlwyr Melin Cambrian

## dysgwr taflen B

**Geirfa:**

| | |
|---|---|
| cyfenw | *surname* |
| enw bedydd | *christian name* |
| perchnogion | *owners* |
| llysenw | *nickname* |
| cynhyrchu | *to produce* |
| Y Rhyfel Mawr/Y Rhyfel Byd Cyntaf | *First World War* |
| ymddeol | *to retire* |

**Hanes personol:**

Ysgrifennwch hanes dau berson (rhywun enwog, os mynnwch) gan ddilyn y drefn a ganlyn a siaradwch amdanyn nhw wedyn.

ganwyd
priododd
gweithiodd
ymddeolodd
bu farw
roedd yn ŵr/gwraig…

**Yn eich barn chi:**

Sut roedd y Lewisiaid yn wahanol i bobl gyffredin yr ardal? Ystyriwch y cyd-destunau canynol:


tŷ
ffatri
capel
y pentref
arian
ffrindau
y fynwent

# canolradd 4

## taith o gwmpas y pentref **dysgwr**

**Nod: Dilyn llwybr gosod o gwmpas y pentref ac ateb y cwestiynau ar y daflen. Mae pob rhif yn cyfateb i le ar y map.**

**Taith o Amgylch y Fro**



# canolradd 4

## taith o gwmpas y pentref

**dysgwr**

1. Ewch allan trwy giât yr Amgueddfa. Trowch i'r dde ac i'r dde unwaith eto, a dilynwch lwybr sy'n rhedeg ar hyd ochr yr Amgueddfa. Edrychwch draw at yr Amgueddfa. Mae adeilad yn syth o'ch blaen ac iddo nifer o ffenestri. Dyma hen sied wau [*weaving shed*] Melin Cambrian – adran bwysicaf y felin. Roedd tuag 20 o bobl yn gweithio yno pan oedd yn ei hanterth [*at its peak*].

   Pam 'dych chi'n meddwl bod eisiau adeilad mor fawr?
   Pam, yn eich barn chi, roedd y perchennog wedi gosod gwydr barugog [*frosted*] ar waelod y ffenestri?

2. Cerddwch ymlaen at y bont ac arhoswch yna. Enw'r bont yw Pont y Glyn.

   Rhowch resymau pam roedden nhw'n codi melinau ar lan afonydd.

3. Ychydig ar ôl croesi'r bont, mae tŷ mawr ar ochr y bryn ar y dde o'r enw Y Glyn.

   Pwy 'dych chi'n meddwl oedd yn byw yma? Perchennog neu weithiwr? Rhowch resymau.
   Beth 'dych chi'n ei sylwi am y coed a'r ardd?

4. Ychydig ymlaen, trowch i'r chwith ac ewch trwy giât. Yn uwch i fyny ar ochr y bryn ar y dde, mae fferm Cryngae. Maen nhw'n dweud bod Dafydd ap Gwilym yn dod yma yn yr hen amser.

   Gwrandewch ar yr hanes gan eich tiwtor a dywedwch pwy oedd Dafydd ap Gwilym?

5. Ewch ymlaen a thrwy giât arall. Wedi cyrraedd yr heol, trowch ychydig i'r dde. Mae adeilad mawr o'ch blaen. Dyma hen ffatri wlân Cilwendeg.

   Disgrifiwch yr adeilad.

6. Trowch yn ôl i'r chwith a dilynwch yr heol ymlaen heibio i arwydd Pwllmarl, ger y byngalos. Trowch i'r chwith eto, a dilyn y lôn fferm trwy glos [*farmyard*] fferm Pwllmarl. Ar ôl croesi'r afon, fe welwch chi Ffatri Meiros ar y dde, ar draws y cae.

   Sut mae'r ffatri hon yn wahanol i'r ffatrïoedd eraill?
   Ydych chi'n gallu meddwl am resymau pam mae hi wedi ei hadeiladu fel hyn?

# canolradd 4

## taith o gwmpas y pentref                dysgwr

7. Croeswch y bont nesaf a dilynwch y llwybr i fyny at hen ffatri wlân Square Hall.

   Beth sy'n digwydd yn yr adeilad heddiw?
   Pam 'dych chi'n meddwl bod enwau Saesneg ar rai o'r ffatrïoedd hyn?

8. Cerddwch ymlaen at yr heol. 'Dych chi nawr yn ôl yn stryd fawr y pentref. Trowch ychydig i'r dde. Mae capel Bethel ar y chwith.

   Pryd adeiladwyd y capel?
   Pam 'dych chi'n meddwl bod rhaid ailadeiladu'r capel yn 1840 ac 1889?



9. Yn nes ymlaen mae tŷ mawr ar y chwith, o'r enw Meiros Hall. Pwy yn eich tyb chi oedd yn byw yma?

   Ble 'dych chi wedi gweld yr enw 'Meiros' o'r blaen?
   Beth yw prif nodweddion [*characteristics*] y tŷ?
   Pwy 'dych chi'n meddwl oedd yn byw yno?

# canolradd 4

## taith o gwmpas y pentref

dysgwr

10. Pan ddewch at fforch [*fork*] yn yr heol, trowch i'r chwith ac ewch i fyny'r bryn. Trowch i'r dde gyferbyn â mynwent Bethel ac fe welwch fynwent arall ar y gornel. Ewch i mewn iddi.

    Beth oedd enw'r capel oedd yn arfer bod yma?
    Pryd adeiladwyd y capel?
    Ble mae'r capel nawr?

11. Trowch i'r dde allan o'r fynwent. Dilynwch yr heol nes i chi ddod at dŷ o'r enw Dolwïon. Gwelwch lôn gul ar y dde yn arwain at ffatri Dolwïon a gaeodd yn 1972.

    Gwrandewch ar yr hanes gan eich tiwtor a dywedwch wedyn beth yw'r cysylltiad [*connection*] rhwng y ffatri yma ac Unol Daleithiau America?

12. Ewch heibio i ffatri Dolwïon a dilynwch y llwybr nes ichi gyrraedd yr heol fawr. Trowch i'r dde. Wrth gerdded yn ôl trwy'r pentref, beth sydd wedi ei ysgrifennu ar ffrynt un o'r tai ar y dde?

    Pam does dim lle tebyg yma nawr?

13. Croeswch y bont dros Afon Esger. Mae ysgol ar y chwith.

    Beth yw enw'r ysgol?
    Pa fath o ysgol yw hi?

14. Wrth ochr yr ysgol, fel welwch eglwys a mynwent. Ewch i mewn i'r fynwent.

    Beth yw enw'r eglwys?
    Yn y fynwent, y tu ôl i'r eglwys, mae tair carreg fedd [*gravestones*] fawr iawn. Pwy oedd y teuluoedd hyn?

15. Enw'r sgwâr y tu allan i'r eglwys yw Sgwâr y Giât. Ewch yn ôl i'r pentref, heibio i'r neuadd.

    Sut cafodd Sgwâr y Giât ei henw? Holwch rywun.
    Beth yw enw neuadd y pentref?
    Pa fath o bethau sy'n digwydd yno? Holwch bobl neu edrychwch am bosteri.

# canolradd 4

## taith o gwmpas y pentref

dysgwr




Ewch ymlaen yn syth i'r Amgueddfa i gwrdd â'ch tiwtor er mwyn trafod eich atebion.